

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Hydref 2018

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Siân Godbert , Gwawr Jones, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau -- Terry Bullock, Janet Charlton.

Nodwyd bod y Cyng Nick Corney yn mynychu cyfarfod APCE/ Cyngorau Tref a Chymuned ar ran y Cyngor Cymuned.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 10fed Fedi 2018.

Mr Terry Bullock

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr gan Mr Bullock yn amlinellu ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor o ganlyniad nad oedd yn mwynhau'r iechyd gorau. Y clerch i drefnu hysbysiad i lenwi'r bwllch.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr Heddlu'n bresennol. Y clerch i wneud ymholiadau ynglŷn â'u presenoldeb.

[1.1] Materion Traffig Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Nodwyd yn siomedig nad oedd yr astudiaeth dichonoldeb a oedd i gael ei chyflwyno erbyn diwedd Medi gan Gyngor BS Conwy heb ei chwblhau.

[1.2] Siop Climber & Rambler Ffordd Caergybi

Cyfeiriodd y clerch at ohebiaeth gan y Parc Cenedlaethol yn cadarnhau bod cysylltiad wedi ei wneud gyda'r perchennog [J D Sports] ynglŷn a'r golwg truenus sydd ar y siop, a bod gair hefyd wedi ei anfon yn gofyn iddynt dacluso a.y.b. i geisio gwella golwg oddi allan yr adeilad.

[1.3] Ciosg Coch

Dyweddodd y clerch bod y Parc Cenedlaethol wedi cytuno i osod gwybodaeth ynglŷn â thwristiaeth a.y.b. oddi fewn y ciosg.

[1.4] Arolwg y Pentref

Cafwyd diweddariad gan y Cyng Elisabeth ynglŷn â'r arolwg a wnaed yn y pentref.

Y brif Agenda

[1.5] Grŵp Cynefin

Cafwyd amlinelliad gan Noela Jones a Bryn Davies o Grŵp Cynefin ynglŷn a'r sefyllfa ar gyfer lleoliad i dai fforddiadwy yn y pentref.

Deallwyd nad yw'r canlynol yn addas am wahanol resymau [a] Pentre' Du [b] Glan Llugwy [c] Cae Chwarae, ond fod lleoliad yn agos i'r feddygfa ar hyn o bryd yn cael ei ystyried.

Penderfynwyd cwrdd eto mewn chwe mis.

#### [1.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Medi 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2018.

#### [c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Cyfeiriodd y clerc at y materion canlynol a wnaed gan yr archwiliwr

[d] Datganiad Llywodraethant Blynyddol - Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau cwestiwn rhan 2 yn gywir, sy'n ymwneud a'r rhwymedigaeth i dalu arian rhodd.

[e] Mae'r archwilydd mewnol wedi nodi rhai agweddau yn systemau ariannol y Cyngor, a dylai'r Cyngor wella'r trefniadau cyn gynted â phosibl.

Penderfynwyd cymeradwyo'r adroddiad, y clerc i weithredu'r argymhellion.

#### [1.7] Ceisiadau Cynllunio

Tynnu i lawr y porth presennol ac adeiladu garej yn ei le. Bod Afon, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

#### [1.8] Rheolaeth Cae Llan

Yn dilyn ymholiadau i gynnal gweithgareddau ar y cae, penderfynwyd gwneud adolygiad o bolisi'r Cyngor ynglŷn â rheolaeth y cae, ac i ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd yn cynnwys stondinau bwyd.

Yr adolygiad i gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

#### [1.9] Ysgol Betws-y-Coed

Gan nodi'r trafferthion ariannol i ddarparu cysylltiadau cludiant rhwng ysgolion Betws-y-Coed, Dolwyddelan, a Chapel Garmon, penderfynwyd cyfrannu £1500.00 i Is Bwyllgor Cyllid Ysgol Betws-y-Coed.

#### [2] Diffibilriwr

Penderfynwyd gosod diffibilriwr yn y neuadd, y clerc i drefnu.

#### [2.1] Nodwyd y wybodaeth Ganlynol

[a] Bywiog am Byth - Ymarfer ysgafn i wella symudiad a.y.b. pob dydd Iau yn y Neuadd Goffa o 2.00 - 3.00

[b] Adolygiad o adeiladau gwag ar gyfer busnes a defnydd masnachol.

[c] Unllais Cymru -Pwyllgor Ardal 10fed Hydref 2018 ym Mhafiliwn Chwaraeon, Ffordd Werdd, Corwen am 7.00 yh.

[d]Cynllun Datblygu Lleol Eryri -Ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r archwiliad cyhoeddus.

Cadeirydd\_\_\_\_\_